**Cyngor Rhondda Cynon Taf**
Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gafodd ei gynnal ddydd Mercher 19 Ionawr 2022 am 5pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd M Adams |
| Y Cynghorydd J Barton | Y Cynghorydd S Belzak |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd H Boggis |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd A Calvert |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd A Chapman |
| Y Cynghorydd A Cox | Y Cynghorydd A Crimmings |
| Y Cynghorydd J Cullwick | Y Cynghorydd G Davies |
| Y Cynghorydd L De Vet | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd M Forey |
| Y Cynghorydd A. Fox | Y Cynghorydd H Fychan |
| Y Cynghorydd E George | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd E Griffiths | Y Cynghorydd M Griffiths |
| Y Cynghorydd J Harries | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd L Hooper | Y Cynghorydd P Howe |
| Y Cynghorydd J. James | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd K Jones | Y Cynghorydd L Jones |
| Y Cynghorydd W. Jones | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd D Owen-Jones |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd J Rosser |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd E. Stephens |
| Y Cynghorydd G Thomas | Y Cynghorydd S Trask |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd R Turner |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd M Weaver |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd R Williams | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen

**104 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Davies-Jones, J Davies, M Fidler Jones, G Jones, G Hopkins, K Morgan, S Pickering, S Powell, S Rees-Owen, W Owen a M Tegg.

**105 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Eitem 4 ar yr Agenda – Siaradwr Cyhoeddus**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell – "Mae Parc Ynysangharad yn fy ward, ac rydw i wedi bod yn galw am barc sglefrio ar gyfer y parc".

**Eitem 8 ar yr Agenda - Cyllideb Refeniw 2022/23 - Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman - "Rwyf wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb bresennol a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2022/23.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell – "Mae fy ngwraig i'n gweithio i'r awdurdod".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Harries – "Mae fy Nhad yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol".

Cafodd datganiad o fuddiant personol pellach ei wneud nes ymlaen yn y cyfarfod (gweler Cofnod Rhif 113) gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker – "Rwy'n datgan buddiant gan fy mod i'n aelod o Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref"

**Eitem 8 ar yr Agenda - Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru 2020/21**

Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu – "Fi yw'r Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am weinyddu'r gronfa".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris - "Rwyf yn aelod o fwrdd grŵp cymunedol, Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian. Mae sôn amdano yn yr adroddiad"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis – "Cyfeirir at Ymddiriedolaeth Amgueddfa Cwm Cynon yn yr adroddiad, rydw i hefyd yn aelod o Grŵp Cyfeillion yr Amgueddfa".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings – "Rwy'n ymddiriedolwr i Grŵp Cyfeillion Parc Aberdâr, sydd wedi derbyn cyllid yn rhan o Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees – "Rwy'n Ymddiriedolwr i Grŵp Cyfeillion Parc Aberdâr, rydw i hefyd yn aelod o Grŵp Cyfeillion Amgueddfa Aberdâr".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G R Davies –“Rwyf yn Ysgrifennydd Blaen-cwm yn Nhreherbert ac rwyf hefyd ar bwyllgor Clwb Tenis Cwm Rhondda, sydd wedi derbyn arian o’r gronfa”.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Barton – “Rwy’n ymddiriedolwr ar Lyfrgell Cymuned Beddau a Thŷ-nant sydd wedi derbyn grant gan Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru yn y gorffennol”

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Cullwick – “Rwy’n aelod o’r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru”

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick – “Fi yw Ysgrifennydd Cymdeithas Rhandiroedd Maes-y-ffynnon yn Aberdâr, roedden ni wedi derbyn arian yn rhan o Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru ychydig flynyddoedd yn ôl”.

**Eitem 12 ar yr agenda - Gweithgor Trosolwg a Chraffu – Datblygu seilwaith trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol yn Rhondda Cynon Taf**

Cafodd datganiad o fuddiant personol pellach ei wneud nes ymlaen yn y cyfarfod (gweler Cofnod Rhif 117) gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J James – “Rwyf wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Twnnel Cwm Rhondda yn rhan o fy nyletswyddau yn y Senedd”

**Eitem 8 ar yr Agenda – Rhybudd o Gynnig (B)**

Cafwyd datganiad o fuddiant personol pellach nes ymlaen yn y cyfarfod (gweler Cofnod Rhif 118) gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell – “Mae gen i dros 40 mlynedd o brofiad o weithio yn y diwydiant gwresogi a gwaith plymwr”.

**106 Cyhoeddiadau**

Roedd y Cynghorydd J Bonetto yn drist o gyhoeddi bod ei chyfnod hi fel Maer yn dod i ben a dywedodd y byddai gwybodaeth am ei helusennau a'r arian a godwyd yn cael ei chyhoeddi'n fuan. Mae hi'n edrych ymlaen at ymgymryd â'i rôl newydd fel Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, gan adeiladu ar y gwaith gwella a buddsoddi a gyflawnwyd gan y Cynghorydd Rosser. Dymunodd y Cynghorydd Bonetto ddiolch i'r Arweinydd am roi'r cyfle iddi ymgymryd â'r swydd hon.

Cyhoeddodd y Cynghorydd S Bradwick y byddai’n dringo Pen Y Fan yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth ar gyfer yr elusen ac i gefnogi’r achos teilwng hwn.

Cyhoeddodd y Cynghorydd P Jarman farwolaeth cyn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Cwm Cynon, Mr Tony Bessent Roberts OBE a thalodd deyrnged iddo trwy rannu rhai o’i lwyddiannau niferus megis derbyn rôl sydd ddim yn rôl cyfarwyddwr a chydnabod ei rôl yn rhan o hanes y Tŵr. Roedd y Cynghorydd Jarman yn dymuno anfon ei chydymdeimlad at ei deulu.

Roedd y Cynghorydd Sheryl Evans yn dymuno dweud diolch arbennig i garfanau

casglu'r Cyngor a gwirfoddolwyr sy'n casglu sbwriel ar ran ei hetholwyr.

**107 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 am 5pm a chofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021 yn rhai cywir.

**108 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Cafodd yr Aelodau wybod y byddai ymateb ysgrifenedig oddi wrth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings, yn cael ei ddarparu i Mr Marshmann, a gyflwynodd y cwestiwn gan y cyhoedd.

**109 Datganiadau**

Fel sydd eisoes wedi'i gyhoeddi, dywedodd yr Arweinydd y byddai'r newidiadau i Aelodaeth y Cabinet o dan Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd yn dod i rym o 20 Ionawr 2022. Roedd yr Arweinydd yn falch o gyhoeddi y byddai'r Cynghorydd J Bonetto a'r Cynghorydd G Caple yn ymuno â'i Gabinet. Talodd deyrnged i'r Cynghorwyr G Hopkins a J Rosser am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r Cabinet a dymunodd bob dymuniad da i'r Cynghorydd Rosser gyda'i hymddeoliad yn dilyn ei chyhoeddiad.

Roedd yr Arweinydd wedi cydnabod y gwaith caled y mae'r Cynghorydd Rosser wedi'i wneud mewn perthynas â buddsoddiadau i wasanaethau addysg megis cynlluniau Ysgolion yr 21 Ganrif, ymgysylltu â phartneriaid eraill dros gyfnod o 7 blynedd a'r gwaith y mae'r Cynghorydd Hopkins wedi'i wneud o ran chwarae rôl allweddol wrth drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol ac arwain ar ddatblygu Gofal Ychwanegol yn RhCT, y buddsoddiad mwyaf ers sbel hir, yn ogystal â'r gefnogaeth y mae ef wedi'i rhoi i staff, rheolwyr a defnyddwyr y gwasanaethau gofal cymdeithasol drwy gydol y pandemig (fel y mae'r Cynghorydd Rosser wedi'i wneud).

Cyhoeddodd yr Arweinydd y bydd Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd yn cael ei ddiweddaru a'i rannu â'r holl Aelodau maes o law.

**110 Cwestiynau gan yr Aelodau**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd G Jones a chafodd yr Aelodau wybod na fyddai cwestiwn 6 yn cael ei gyflwyno i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad.

**1. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

“All yr Arweinydd roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith gwella sy'n cael ei gyflawni ar geuffosydd Ynys-hir, yn enwedig ger Teras y Waun?”

**Ymateb gan yr Arweinydd**:

Dywedodd yr Arweinydd, yn dilyn arolwg o'r geuffos, y cwrs dŵr agored a'r

llinellau cwlfer caeedig, fod difrod sylweddol uwchlaw Trem y Faner. Cafodd gwaith leinio strwythurol gwerth dros £110,000 ei gwblhau yn ystod Haf 2021. Gosodwyd tyllau archwilio ychwanegol hefyd. Dechreuodd y gwaith ar y ddau gwrs dŵr uwchlaw Teras y Waun ar ddiwedd yr Hydref ond bu oedi gyda'r gwaith oherwydd tywydd garw. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai’r gwaith wedi’i gwblhau erbyn mis Mawrth 2022. Mae rhaglen gyfredol yn dangos buddsoddiad gwerth rhwng £175,000-£200,000 i ddatrys y problemau yn yr ardal. Mae'r rhaglen wedi'i hariannu’n llawn gan Lywodraeth Cymru yn dilyn Storm Dennis.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**2. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Walker i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

“All yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant amlinellu’r cynnydd sydd wedi’i wneud mewn perthynas â'r safle arfaethedig ar gyfer yr Ysgol Arbennig newydd yn RhCT a pha gamau sydd wedi’u cymryd, os o gwbl, o ran materion cyllid a'r broses adeiladu gan ystyried problemau capasiti parhaus mewn ysgolion arbennig? ”

**Ymateb gan y Cynghorydd Rosser**

Dywedodd y Cynghorydd Rosser mai hwn fyddai ei chwestiwn olaf fel Aelod o'r Cabinet ac mae hi'n falch o'i gwaith buddsoddi mewn perthynas â chyfleusterau ysgolion arbennig a sicrhau cyllid ar gyfer datblygu safle ysgol newydd. Mae Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor wedi cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae ysgol arbennig newydd wedi'i chynnwys yn rhan o'r rhaglen yma, mae cyllid hefyd wedi'i gynnwys yn rhan o'r buddsoddiad yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes angenrheidiol a'r broses graffu gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Cynghorydd Rosser fod y Cyngor bellach wedi cyrraedd y cam dichonoldeb, mae'r cynnydd yn unol ag amserlenni'r rhaglen Band B gyfredol.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker**

“All yr Aelod o'r Cabinet roi unrhyw wybodaeth o ran amserlenni a pha ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda staff yr ysgol ynglŷn â’r adeilad newydd hwn?”

**Ymateb gan y Cynghorydd J Rosser:**

Dywedodd y Cynghorydd Rosser fod Swyddogion o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg yn rheoli’r galw am leoedd ysgol, yn unol â’r Cod Derbyniadau Ysgol 2013 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018 a bod Swyddogion yn gweithio’n agos gyda’r holl Benaethiaid yn hyn o beth. Mae prosiectau i gynyddu nifer yr adeiladau ar y gweill mewn dwy ysgol, Ysgol Hen Felin ac Ysgol Tŷ Coch a chwblhawyd addasiadau mewnol yn ddiweddar yn Ysgol Tŷ Coch ac Ysgol Arbennig Lôn y Parc i reoli nifer y lleoliadau hysbys, presennol a'r lleoliadau a ragwelir. Cadarnhaodd y Cynghorydd Rosser nad yw unrhyw ysgol arbennig y Cyngor yn wynebu mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael a bod y Cyngor yn hyrwyddo safonau addysgol uchel yn lleol yn barhaus i sicrhau mynediad teg i addysg fel y mae modd ei weld o edrych ar lefel y buddsoddiadau a glustnodwyd ar gyfer y cynigion newydd a chyffrous ar

gyfer yr ysgolion.

**3. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Turner i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet sy’n gyfrifol am y Priffyrdd roi’r wybodaeth ddiweddaraf am Bont Droed Llanharan?”

**Ymateb gan yr Arweinydd:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y bont wedi'i chau ym mis Medi 2021 oherwydd diffygion diogelwch a nodwyd. Y bwriad oedd cael gwared ar y bont droed i gerddwyr dros gyfnod gwyliau'r Nadolig; fodd bynnag, torrodd y craen i lawr ar y safle a bu'n rhaid i Network Rail ei gasglu. Mae’r gwaith i symud y cynllun hwn yn ei flaen wedi parhau a chyhoeddodd yr Arweinydd y bydd y craen yn cael ei osod ar y safle nos yfory. Bydd y bont yn cael ei thynnu oddi yno dros nos ac yn cael ei symud i'r tir cyferbyn â'r safle a'i rhannu'n darnau. Dywedodd yr Arweinydd fod contractwr newydd wedi'i benodi i fwrw ymlaen â'r bont newydd y mae disgwyl iddi fod yn ei lle a'i chwblhau erbyn mis Gorffennaf 2022 gan ddibynnu ar nifer o ffactorau hollbwysig.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**4. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Williams i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“All yr Arweinydd roi trosolwg o’r gwaith sydd wedi’i gwblhau hyd yma er mwyn helpu i ddiogelu trigolion Teras Bronallt yn Abercwmboi rhag llifogydd, ac a all yr Arweinydd hefyd amlinellu p'un a oes modd cymryd camau pellach?”

**Ymateb gan yr Arweinydd:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod mesurau atal llifogydd wedi'u cynnig i 42 eiddo yn Nheras Bronallt, mae'r rhain yn cynnwys llifddorau, bagiau tywod a sachau llifogydd brys. Mae 24 o'r 42 eiddo wedi derbyn yr holl fesurau. Mae Swyddogion bellach yn y broses o drafod opsiynau gyda thrigolion eraill gan fod rhai yn pryderu am yr effaith bosibl ar eu heiddo. Dywedodd yr Arweinydd fod y gwaith ar y daliwr malurion uchaf ar yr un brif geuffos wedi costio £40,000, mae gwaith gwerth £160,000 wedi'i gyflawni i ehangu'r geuffos ac adnewyddu'r bibell danddaearol ar Deras Bronallt. Mae gwaith ar fin dechrau ar y gilfach ar Deras Mostyn, cost y gwaith yma fydd rhwng £95,000 a £100,000 ac mae gwaith o nodi cynlluniau pellach ar gyfer yr ardal yn parhau.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**5. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H Boggis i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:**

“A wnaiff y Dirprwy Arweinydd roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog, yn dilyn penderfyniad y Cabinet?”

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd:**

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y Cabinet wedi rhoi caniatâd i ddatblygu a gweithredu'r cynllun gwarantu cyfweliad yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2021. Mae'r cynllun wedi bod ar waith ar gyfer milwyr wrth gefn a chyn-filwyr ers 1 Ionawr 2022. Mae'r ymrwymiad ychwanegol yn dangos cefnogaeth y Cyngor i gymuned y Lluoedd Arfog ac yn parchu cyfamod y Lluoedd Arfog y mae'r Cyngor wedi'i lofnodi. Mae'r Cyngor hefyd yn dal y Wobr Safon Aur am lefel y gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Lluoedd Arfog a'r ymrwymiad parhaus.

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd fod y cynllun gwarantu cyfweliad yn sicrhau bod cyn-filwyr a milwyr wrth gefn sy'n bodloni meini prawf hanfodol y swydd a hysbysebir yn sicr o gael cyfweliad. Cydnabuwyd y gall aelodau o'r Lluoedd Arfog ddod â sgiliau a rhinweddau gwerthfawr ac y mae modd eu trosglwyddo i'r gweithlu. Yn ogystal â'r cynllun gwarantu cyfweliad, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hysbysebu swyddi sy'n berthnasol i Gymuned y Lluoedd Arfog yn rhan o'r CTP, yn ogystal â'u cynnwys yn rhan o'r broses hysbysebu arferol. I gloi, rhoddodd y Dirprwy Arweinydd sicrwydd bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i gyfamod y Lluoedd Arfog ac y bydd yn parhau â'i waith gyda theuluoedd y Lluoedd Arfog ledled y fwrdeistref sirol.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**6. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

"All yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Bafiliwn Parc Blaenrhondda"

**Ymateb y Cynghorydd A Crimmings:**

Ymatebodd y Cynghorydd Crimmings drwy nodi bod Pafiliwn Parc Blaenrhondda mewn cyflwr gwael a'i bod yn cydnabod gwerth y pafiliwn i'r gymuned. Cafodd y pafiliwn newydd ei gymeradwyo yn rhan o Raglen Gyfalaf y Parciau 2021 ond o ganlyniad i fynediad cyfyngedig i'r parc, rhoddwyd gorau i'r cynllun i osod adeilad dros dro. Rhoddodd y Cynghorydd Crimmings sicrwydd y bydd hyn yn flaenoriaeth yn amodol ar gymeradwyo'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf ar gyfer 2022/23.

**Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones:**

"Mae adnewyddu'r cyfleuster yr un mor bwysig i'r gymuned â llefydd eraill megis Parc y Darren. Nid bai'r gymuned yw hi bod mynediad cyfyngedig i'r parc. Oes modd i chi bennu dyddiad cwblhau ar gyfer y gwaith. Mae'r parc yn cael ei ddefnyddio ar gyfer chwaraeon, yn ogystal â bowls, ac yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned a phensiynwyr."

**Ymateb y Cynghorydd A Crimmings:**

Roedd y Cynghorydd Crimmings wedi cydnabod gwerth y parc i'r trigolion a dywedodd y byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r gymuned ond nid oedd modd iddi bennu dyddiad cwblhau ar hyn o bryd. Rhoddodd y Cynghorydd Crimmings sicrwydd bod y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda chlybiau chwaraeon ledled y Fwrdeistref Sirol, gan gydnabod eu pwysigrwydd.

**7. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Blant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Leyshon: -**

“All yr Aelod o'r Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf am Apêl Siôn Corn a’r haelioni enfawr a ddangoswyd gan drigolion a busnesau?”

**Ymateb y Cynghorydd C Leyshon:**

Dywedodd y Cynghorydd Leyshon fod amserlenni Apêl Siôn Corn wedi’u hymestyn ym mis Rhagfyr oherwydd yr heriau sy’n gysylltiedig â Phandemig Covid, er mwyn rhoi rhagor o amser i bobl roi anrhegion. O ganlyniad i hyn, cafodd pob plentyn ar y rhestr anrheg Nadolig. Oherwydd y pandemig, methodd nifer o sefydliadau gyfrannu at yr apêl megis Prifysgol Morgannwg ac Undeb Myfyrwyr De Cymru a oedd wedi casglu a dosbarthu dros 1,500 o anrhegion yn y deng mlynedd diwethaf. Eleni casglwyd 50 bag o anrhegion ganddyn nhw. Roedd tua 1,862 o roddion ac roedd rhai o’r rhoddwyr mwyaf yn cynnwys Gwasanaeth Gwaed Cymru, Eglwys Bethel Bush, Y Bathdy Brenhinol, Y Fagloriaeth Ryngwladol, Rhwydwaith Recriwtio Cymru, Coleg y Cymoedd, Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Ysgol Gynradd Hirwaun, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chlwb Pêl-droed i Ferched Tref Pontypridd.

Roedd y Cynghorydd Leyshon wedi diolch i holl staff yr awdurdod lleol a phawb a gymerodd ran ac a helpodd yr apêl yn enwedig trigolion unigol a theuluoedd RhCT a oedd hefyd yn wynebu heriau yn ystod Pandemig Covid-19.

**111 Rhaglen Waith y Cyngor 2021-2022**

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu nad oedd unrhyw newidiadau i Raglen Waith y Cyngor 2021/22 sydd eisoes wedi'i mabwysiadu a'i chyhoeddi. Bydd manylion y trefniadau ar gyfer Dadl Flynyddol yr Arweinydd yn cael eu rhannu cyn y cyfarfod a dywedodd y byddai cyfarfod y Cyngor ar 2 Mawrth 2022 yn cael ei ddileu o'r calendr.

**112 Archwilio Cymru – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)**

Cyflwynodd Rheolwr Archwilio Cyflawniad, Archwilio Cymru, Grynodeb Archwilio Blynyddol RhCT ar gyfer 2020/21 a chadarnhaodd fod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor wedi trafod y mater.

Cyfeiriodd y Rheolwr Archwilio Cyflawniad at feysydd gwaith eraill a gafodd eu cwblhau gan Archwilio Cymru wrth ymateb i bandemig Covid-19. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu yng Nghymru, cyflenwad Cyfarpar Diogelu Personol ac adroddiad ynghylch cyflwyno rhaglen frechu Covid-19 yng Nghymru. Mae'r cynlluniau adfer ar draws yr awdurdodau lleol, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, wedi arwain at gyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion i ddeall eu hymatebion a bydd eu cynlluniau adfer unigol yn fater parhaus. I gloi, rhoddwyd trosolwg o waith parhaus a gwaith arfaethedig Archwilio Cymru ar gyfer y dyfodol, megis astudiaeth genedlaethol ar gyfer lleihau allyriadau carbon, adfywio canol trefi ac adolygiad o faterion llywodraethu lefel uchel sy'n ymwneud â Phartneriaeth Iechyd Cwm Taf Morgannwg.

Wrth ymateb i ymholiad ynglŷn â data cymharol mewn perthynas â chronfeydd

ariannol wrth gefn y mae modd eu defnyddio sydd gan awdurdodau lleol eraill, cadarnhawyd y byddai Archwilio Cymru yn casglu ac yn darparu'r data hwn ar ôl y cyfarfod.

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas ag Adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol RhCT ar gyfer 2020/21, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.

**113 Cyllideb Refeniw 2022/23 - Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol wybodaeth mewn perthynas â'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2022/23 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2021 gan gyfeirio at ei adroddiad a chyflwyno sylwadau cychwynnol ar effaith debygol y setliad dros dro ar ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.

Rhannodd y Cyfarwyddwr y prif benawdau data o'r setliad â'r Aelodau fel sydd wedi'u nodi yn adran 4. Rhoddodd wybod am y cynnydd gwerth 9.4% (+£437M) ledled Cymru a bod disgwyl i adnoddau'r Cyngor yma gynyddu i 8.4% Mae lefelau setliad dangosol dros dro hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer y 2 flynedd ddilynol ar gyfradd o 3.5% a 2.4% yn y drefn honno, sy'n awgrymu bod cyfnod mwy heriol o'n blaenau. Mae nifer o drosglwyddiadau i'r setliad hefyd wedi'u nodi yn adran 4 yn ogystal â gostyngiad gwerth £2.165miliwn o ran cyllid cyfalaf y Cyngor.

Mae'r setliad yn fwy cadarnhaol na'r hyn a gafodd ei gynllunio yn rhan o gynllun ariannol tymor canolig diweddaraf y Cyngor ac mae hefyd yn adlewyrchu sylfaen costau a phwysau cynyddol sylweddol ar wasanaethau'r Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dod â'r Gronfa Galedi i ben. Mae'r gronfa yma'n ad-dalu llywodraeth leol am gostau a cholledion incwm o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r rhagamcanion yn nodi y bydd y cymorth gan y gronfa eleni'n cyfateb i £30miliwn. Bydd rhywfaint o'r cyllid yma ar gyfer risgiau ariannol allweddol y mae angen eu rheoli yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a thu hwnt.

Mae'r gofynion cynyddol o ran y gyllideb wedi'u nodi ac mae'r rhain yn cynnwys cyllid i dalu am gynnydd mewn nifer o feysydd megis cyfraniadau YG cyflogwyr sy'n gysylltiedig ag Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, talu'r Cyflog Byw Sylfaenol sydd wedi cynyddu o £9.50 i £9.90 yr awr i ddarparwyr gofal cymdeithasol ledled RhCT, costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, chwyddiant ar draws y Cyngor a'r pwysau ar y gadwyn gyflenwi gan gynnwys costau gweithwyr, costau parhaus sy'n ymwneud â'r pandemig e.e. gwasanaethau gwastraff a chostau lleoliadau arbenigol y sector gofal cymdeithasol. Mae pob un o'r rhain wedi'u nodi yn nhabl 2 yr adroddiad, gan gyfateb i gynnydd net gwerth £11.7miliwn yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod effaith gyfunol y setliad dros dro a'r gofynion cyllideb sylfaenol wedi'u diweddaru wedi'u nodi yn Nhabl 3, yn erbyn bwlch yn y gyllideb o £9.2M adeg y cam cynllunio ariannol tymor canolig, gan dybio y byddai setliad o 4%. Mae'r gofyniad ychwanegol o ran y gyllideb, ar ôl eu gosod yn erbyn yr adnoddau ychwanegol a ddarparwyd ar lefel y setliad dros dro yn arwain at fwlch yn y gyllideb gwerth £229,000.

Yn dilyn ei grynodeb, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r Cabinet yn mynd ati i drafod ei strategaeth gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw arbedion effeithlonrwydd, lefelau Treth y Cyngor, adnoddau ar gyfer ysgolion a gwasanaethau eraill y Cyngor. Bydd trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor yn parhau i fod yr un mor bwysig ag erioed yn y dyfodol.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi'n gynnar ym mis Mawrth a mater i'r Cyngor fydd cymeradwyo'i gynigion terfynol a lefelau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Roedd yr Aelodau wedi croesawu bod y Setliad Llywodraeth Leol dros dro ar gyfer 2022/23 wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn trafodaeth, roedd y Cyfarwyddwr wedi ymateb i sawl ymholiad, megis darpariaeth grant penodol Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer Dysgwyr Ysgolion Cynradd fel y cytunwyd yn rhan o Gytundeb Cydweithio Plaid Cymru, gwerth £40miliwn ar gyfer 2022/23, £70miliwn ar gyfer 2023/24 a £90miliwn ar gyfer 2024/25.

**PENDERFYNWYD**:

1. Nodi bod Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2022/23, wedi'i gyhoeddi gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 21 Rhagfyr 2021;

2. Nodi bod disgwyl i'r Setliad Llywodraeth Leol terfynol gael ei gyhoeddi yn gynnar ym mis Mawrth 2022; a

3. Nodi'r dull o ran ymgynghori ar gyllideb 2022/23 fel sydd wedi'i bennu eisoes.

(**Noder:** Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker y buddiant personol a ganlyn - “Hoffwn ddatgan fy mod i'n Aelod o Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref”

## 114 Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol ei adroddiad a oedd yn nodi'r angen i fynd ati i drafod yn flynyddol a ddylid adolygu neu ddisodli Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor cyfredol y Cyngor (“CTRS”) a'r angen i fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2022.
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun a'r gostyngiadau lleol cyfredol; ac mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru eu rheoliadau i adlewyrchu'r cyfraddau uwchraddio mewn perthynas â'r newidiadau ehangach a chenedlaethol o ran budd-daliadau. Cafodd y rheoliadau wedi'u diwygio eu trafod a’u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ddoe.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi a gweithredu darpariaethau'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig ac unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i'r rheoliadau hynny oherwydd y Rheoliadau Diwygio fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor ar gyfer 2022/23, yn unol â'r gostyngiadau lleol y gall y Cyngor

eu gweithredu;

2. Nodi canlyniad y broses ymgynghori a gynhaliodd y Cyngor ar y gostyngiadau lleol sy'n berthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23; a

3. Cadarnhau'r disgresiwn sy'n berthnasol ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor ar gyfer 2022/23, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.3 (Tabl 2) yr adroddiad.

**115 Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru 2020/2021**

Yn ei adroddiad, ceisiodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sêl bendith Cynghorwyr mewn perthynas â Datganiad o Gyfrifon Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2021; a **PHENDERFYNWYD**:

1. Cymeradwyo a nodi Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru a Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/2021 (Atodiad 1);

2. Cymeradwyo a nodi'r Llythyr o Gynrychiolaeth mewn perthynas â Chronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru (Atodiad 2 yr adroddiad); a

3. Trafod adroddiad yr Archwiliwr Allanol (Atodiad 3).

**116 Penderfyniadau Brys o dan Swyddogaethau Gweithredol**

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu drosolwg o'r Penderfyniadau Brys a gyflwynwyd gan Bwyllgor y Cabinet a Phenderfyniadau Dirprwyedig Swyddog Allweddol Brys a gyflwynwyd y tu allan i Bwyllgor y Cabinet yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2021.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

**117 Gweithgor Trosolwg a Chraffu – Datblygu seilwaith trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol yn Rhondda Cynon Taf**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ganfyddiadau ac argymhellion y Gweithgor Trosolwg a Chraffu a sefydlwyd i fynd i'r afael â 'Datblygu seilwaith trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol yn Rhondda Cynon Taf' yn dilyn y Rhybudd o Gynnig a drafodwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar yr 18 Medi 2019. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cymeradwyo'r adroddiad a'r argymhellion yn ystod ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2021.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod cynnydd wedi'i arafu gan Bandemig Covid-19, yn dilyn y cyfarfod cyntaf yn 2019 a'i fod wedi gofyn am sylwadau gan Aelodau Lleol a rhanddeiliaid. Roedd Aelodau'r Gweithgor wedi cydnabod bod llawer wedi newid ledled y map trafnidiaeth integredig a'r cyfeiriad a gafodd ei osod gan Lywodraeth Cymru sydd

wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad terfynol. I gloi, roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wedi diolch i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen, am y cymorth a roddodd i'r Gweithgor Craffu.

Wrth ymateb i ymholiad ynghylch Moratoriwm Llywodraeth Cymru, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod y Gweithgor, ar y cyfan, yn cytuno bod y cynlluniau ffyrdd yn parhau i fod yn bwysig os oes buddion economaidd.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen fod cynllun ailagor Twnnel Cwm Rhondda yn cael ei drafod ar hyn o bryd. Ychwanegodd y byddai adroddiad mewn perthynas ag ymestyn y rheilffordd o Dreherbert i Dynewydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn rhan o astudiaeth ehangach sy'n canolbwyntio ar wella cysylltiadau trafnidiaeth â'r Cymoedd Canol. Roedd y Cyfarwyddwr hefyd wedi sôn bod panel wedi cael ei sefydlu i adolygu trefniadau adeiladu ffyrdd ledled Cymru yn sgil y moratoriwm a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi gan y dirprwy weinidog cyn bo hir. Bydd yr adroddiad yn amlinellu'r cynlluniau ffyrdd sydd wedi cwblhau'r broses Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Ychwanegodd na fyddai Ffordd Lliniaru Rhondda Fach yn cael ei chynnwys yn yr adolygiad hwnnw ond bydd yn rhan o'r CDLl fel enghraifft o gynllun credadwy (a bydd yn cael ei brofi unwaith eto fel bod modd ei gynnwys yn rhan o gynlluniau yn y dyfodol). I gloi, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen na fyddai tomen Tylorstown yn cael effaith negyddol ar Ffordd Lliniaru Rhondda Fach, bydd yr ymgynghoriad cyn ymgeisio yn cychwyn yn fuan a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol fydd dangos bod y cynllun yn un hyfyw.

Yn dilyn sylwadau ychwanegol gan Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ynghylch y materion a godwyd, **PENDERFYNWYD** nodi casgliadau ac argymhellion y Gweithgor Craffu fel y'u nodir ym mharagraff 6 ac fel y'u cadarnhawyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

(**Nodwch**: Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J James – “Rwyf wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Twnnel Cwm Rhondda yn rhan o’m dyletswyddau yn y Senedd”

**118 Rhybuddion o Gynigion**

**13A** Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi’i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Roberts, W. Lewis, L. M. Adams, J. Barton, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Edwards, J. Elliott, S. Evans, M Griffiths, G. Jones, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, R. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Rees, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo:

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod ymdrechion Llywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru, o ran darparu cymorth ariannol i aelwydydd

incwm isel, a hefyd drwy amrywiaeth o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref drwy'r fenter Cartrefi Clyd.

Ers 2009/10, mae dros 67,000 o gartrefi incwm is wedi elwa ar welliannau effeithlonrwydd ynni, gydag arbediad cyfartalog amcangyfrifedig o £300 ar eu biliau ynni gyda'r fantais ychwanegol o leihau allyriadau carbon.

Un elfen o raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yw cynllun Grant Nyth, sy'n cynnig ystod o gyngor diduedd am ddim a meini prawf i ymgeiswyr cymwys gael mynediad at becyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim fel boeler newydd, gwres canolog neu inswleiddio, sy'n gallu gostwng biliau ynni a bod o fudd i iechyd a lles yr ymgeisydd.

Mae gwaith ardderchog wedi'i wneud gan garfan Gwresogi ac Arbed y Cyngor, er gwaethaf pandemig COVID-19. RhCT oedd yr ardal uchaf ond un o ran atgyfeirio yn 2020-21 - roedd 9% o atgyfeiriadau i'r cynllun Nyth wedi dod oddi wrth drigolion RhCT. RhCT hefyd oedd yr ardal uchaf ond un o ran gosod offer yn llwyddiannus, â chanran o 12.5% Yn ystod 2021-2022 mae Adran Gwresogi ac Arbed y Cyngor wedi anfon 3,631 o lythyron uniongyrchol i ardaloedd strategol mewn partneriaeth â Nyth yn cynnig ymyriad wedi'i dargedu i helpu'r aelwydydd sydd ei angen i gael mynediad at gymorth Nyth.

Er gwaethaf y gwaith cadarnhaol hwn a wnaed yng Nghymru ac yn lleol yn RhCT, mae costau cynyddol ynni yn golygu bod mwy a mwy o aelwydydd yn mynd i dlodi tanwydd.

Mae'r duedd hon yn bygwth y targedau a amlinellwyd yn strategaeth Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035 Llywodraeth Cymru. A Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad yn ddiweddar ar lunio'r fersiwn nesaf o'r rhaglen Cartrefi Clyd, mae bellach yn amser da i archwilio dichonoldeb ehangu'r meini prawf ar gyfer ceisiadau ar gyfer cynllun Nyth.

Felly mae'r Cyngor hwn yn:

- Cydnabod y gwaith da sydd wedi'i wneud yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, ac ar lefel leol gan garfan Gwresogi ac Arbed y Cyngor wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Ac yn penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Julie James, Aelod o'r Senedd, Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, er mwyn gwneud y sylwadau angenrheidiol ynglŷn ag ehangu meini prawf cymhwysedd y cynllun Nyth (a chynlluniau eraill) er mwyn caniatáu i geisiadau pellach gael eu cymeradwyo, er lles ein trigolion.

  Gyda chaniatâd y cynigydd ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, pleidleisiwyd ar y newid a ganlyn i'r Cynnig a chynigiwyd "*Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Julie James, Aelod o'r Senedd, Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, er mwyn gwneud y sylwadau angenrheidiol ynglŷn ag ehangu* ***a chyllido*** *meini prawf cymhwysedd y cynllun Nyth (a chynlluniau eraill) er mwyn caniatáu i geisiadau pellach gael eu cymeradwyo, er lles ein trigolion.*

  Mae'r Rhybudd o Gynnig wedi'i ddiwygio fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod ymdrechion Llywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru, o ran darparu cymorth ariannol i aelwydydd incwm isel, a hefyd drwy amrywiaeth o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref drwy'r fenter Cartrefi Clyd.

Ers 2009/10, mae dros 67,000 o gartrefi incwm is wedi elwa ar welliannau effeithlonrwydd ynni, gydag arbediad cyfartalog amcangyfrifedig o £300 ar eu biliau ynni gyda'r fantais ychwanegol o leihau allyriadau carbon.

Un elfen o raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yw cynllun Grant Nyth, sy'n cynnig ystod o gyngor diduedd am ddim a meini prawf i ymgeiswyr cymwys gael mynediad at becyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim fel boeler newydd, gwres canolog neu inswleiddio, sy'n gallu gostwng biliau ynni a bod o fudd i iechyd a lles yr ymgeisydd.

Mae gwaith ardderchog wedi'i wneud gan garfan Gwresogi ac Arbed y Cyngor, er gwaethaf pandemig COVID-19. RhCT oedd yr ardal uchaf ond un o ran atgyfeirio yn 2020-21 - roedd 9% o atgyfeiriadau i'r cynllun Nyth wedi dod oddi wrth drigolion RhCT. RhCT hefyd oedd yr ardal uchaf ond un o ran gosod offer yn llwyddiannus, â chanran o 12.5% Yn ystod 2021-2022 mae Adran Gwresogi ac Arbed y Cyngor wedi anfon 3,631 o lythyron uniongyrchol i ardaloedd strategol mewn partneriaeth â Nyth yn cynnig ymyriad wedi'i dargedu i helpu'r aelwydydd sydd ei angen i gael mynediad at gymorth Nyth.

Er gwaethaf y gwaith cadarnhaol hwn a wnaed yng Nghymru ac yn lleol yn RhCT, mae costau cynyddol ynni yn golygu bod mwy a mwy o aelwydydd yn mynd i dlodi tanwydd.

Mae'r duedd hon yn bygwth y targedau a amlinellwyd yn strategaeth Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035 Llywodraeth Cymru. A Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad yn ddiweddar ar lunio'r fersiwn nesaf o'r rhaglen Cartrefi Clyd, mae bellach yn amser da i archwilio dichonoldeb ehangu'r meini prawf ar gyfer ceisiadau ar gyfer cynllun Nyth.

Felly mae'r Cyngor hwn yn:

- Cydnabod y gwaith da sydd wedi'i wneud yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, ac ar lefel leol gan garfan Gwresogi ac Arbed y Cyngor wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Ac yn penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Julie James, Aelod o'r Senedd, Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, er mwyn gwneud y sylwadau angenrheidiol ynglŷn ag ehangu meini prawf cymhwysedd y cynllun NEST (a chynlluniau eraill) er mwyn caniatáu i geisiadau pellach gael eu cymeradwyo, er lles ein trigolion.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig yma gyda'r newid dan sylw.

(**Nodwch**): Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell ddatganiad o

fuddiant personol – “Mae gen i dros 40 mlynedd o brofiad o weithio yn y diwydiant gwresogi a gwaith plymwr”.

*************************************************************************************

**13B** Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi’i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Barton, J. Edwards, L. M. Adams, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Elliott, S. Evans, M Griffiths, G. Jones, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Rees, A Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo:

Mae cost gynyddol prisiau ynni yn cael ei disgrifio'n “argyfwng cenedlaethol” sy’n effeithio ar gartrefi, busnesau a’r cwmnïau ynni eu hunain.

Mae'r cynnydd sylweddol mewn prisiau nwy wedi gweld sector ynni'r DU yn talu tua £20 biliwn yn fwy eleni. Mae'r cap ar brisiau ynni, sydd ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu i £1,277, ar fin cynyddu ym mis Ebrill. O ganlyniad, gallai aelwydydd weld eu biliau ynni’n yn cynyddu o 50%, sy’n golygu y gallai aelwydydd fod cymaint â £1,200 y flwyddyn ar eu colled wrth i gyfraniadau Yswiriant Gwladol godi hefyd.

Mae pris cynyddol ynni wedi gweld mwy nag 20 o gyflenwyr ynni yn mynd i'r wal ers mis Medi, gyda llawer o gwsmeriaid wedi'u symud ymlaen at ddarparwyr newydd ar dariffau drutach, sy'n annheg.

Er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn cael eu diogelu gan y cap ar gostau ynni o £1,277 ar gyfer defnydd domestig arferol, bydd y terfyn yn codi ar 1 Ebrill yn unol â chyhoeddiad disgwyliedig ddechrau mis Chwefror. Mae hyn yn golygu bod amser yn brin i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â'r argyfwng.

Mae elusen National Energy Action (NEA) wedi rhybuddio y bydd 6 miliwn o aelwydydd yn y DU (y nifer uchaf a gofnodwyd erioed) yn byw mewn tlodi tanwydd pan fydd y cynnydd yn y terfyn ar brisoedd ynni yn dod i rym ym mis Ebrill. Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u cefnogi gan felin drafod The Resolution Foundation, a rybuddiodd y byddai miliynau o deuluoedd yn y DU yn wynebu blwyddyn dynn yn 2022 o ganlyniad i gynydd yn eu biliau ynni, cyflogau disymud a threthi uwch. Mae Banc Lloegr hefyd wedi dweud ei fod yn disgwyl i chwyddiant gyrraedd 6% erbyn y gwanwyn.

Mae The Resolution Foundation wedi dweud y gallai cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol o fis Ebrill ymlaen, ynghyd â chynnydd disgwyliedig mewn biliau ynni yn yr un mis olygu ergyd o £1,200 i gyllid yr aelwyd, gyda theuluoedd incwm isel yn cael eu gorfodi i ysgwyddo baich mwyaf y cynnydd hwn, gan eu bod yn gwario cyfran fwy o'u hincwm ar drydan a nwy.

Yn gynharach y mis hwn, galwodd grŵp o ugain o ASau ac Arglwyddi Ceidwadol – gan gynnwys pump cyn Weinidog – ar y Prif Weinidog i gymryd camau i fynd i’r afael â chostau byw cynyddol a lleddfu’r pwysau ar y teuluoedd â'r incwm isaf.

Mae cyflenwyr ynni gan gynnwys Good Energy, EDF a'r corff masnach Energy UK wedi galw am ymyrraeth gan y llywodraeth, ar ôl i gost nwy mewn marchnadoedd cyfanwerthu godi mwy na 500% mewn llai na blwyddyn. Mae'r cynnydd wedi golygu bod dros ugain o gyflenwyr wedi mynd yn fethdalwyr, yn sgil gorfod prynu nwy ar y farchnad gyfanwerthu am brisiau uwch nag y cân nhw ei werthu.

Mae diffyg gweithredu Llywodraeth San Steffan yn arwain at "argyfwng enfawr ar gyfer 2022" gyda biliau ynni o bosib yn cynyddu o 50% arall oni bai bod y llywodraeth yn ymyrryd. Mae llawer o lywodraethau eraill ledled Ewrop wedi lleihau trethi ac ardollau eraill, a gallai cymryd camau tebyg yn y DU arbed bron i £200 y flwyddyn ar fil cyfartalog.

Un ateb a leisiwyd gan y diwydiant yw symud ardollau gwyrdd o filiau ynni i drethiant cyffredinol gan y byddai'n golygu bod enillwyr uwch yn talu mwy na chartrefi incwm is, sy'n gwario cyfran fwy o'u hincwm ar hanfodion fel gwresogi.

Maen nhw hefyd yn dadlau y byddai hyn yn gostwng y mesur chwyddiant, gan arbed arian i'r llywodraeth ar gostau benthyca sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Serch hynny, nid yw'n ymddangos bod y Trysorlys yn ffafrio'r dull hwn o weithredu gan ei fod yn amharod i gynyddu'r baich treth cyffredinol, a'r arwyddion yw y bydd Llywodraeth y DU yn lle hynny yn ceisio ehangu'r Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes gwerth £140 yn rhan o becyn rhyddhad wedi'i dargedu hyd at 6 miliwn o gartrefi.

Er gwaethaf anallu ymddangosiadol Llywodraeth San Steffan i weithredu'n bendant, mae trigolion yng Nghymru ac ar draws RhCT wedi elwa ar fentrau sydd wedi'u cynllunio i leihau tlodi tanwydd a chynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi.

Mae cynllun Arbed am Byth Llywodraeth Cymru wedi darparu 206 o fesurau ynni i 113 o gartrefi ym Mhenrhiwceiber, tra bod RhCT hefyd yw'r ardal uchaf ond un yng Nghymru o ran cyfeirio aelwydydd i'r cynllun a gosod mesurau yn 2020-21. Mae Grant Gwresogi RhCT y Cyngor ei hun – sy'n darparu cyllid o hyd at £5,000 i gynorthwyo hyd at 20 o aelwydydd sydd mewn perygl o dlodi tanwydd ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer cynlluniau cymorth eraill – wedi derbyn 24 o geisiadau gyda 7 grant wedi'u cymeradwyo ar gost o £1,500 fesul eiddo.

Mae Swyddogion y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth a sefydliadau eraill i gyfeirio unigolion a theuluoedd sydd angen cymorth at y ffrwd fwyaf priodol o gymorth ariannol.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Galw ar Lywodraeth y DU i anrhydeddu addewid ymgyrch Brexit o dorri'r gyfradd TAW o 5% ar filiau ynni, neu i gyflwyno pecyn cymorth amgen sy'n darparu cyllid ychwanegol – i roi cymhorthdal i gwmnïau ynni ac i roi rhyddhad i gartrefi – fel nad yw aelwydydd ar draws y DU, gan gynnwys yma yn Rhondda Cynon Taf, yn ysgwyddo baich y cynnydd mewn prisiau.

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Busnes, Canghellor y Trysorlys a Phrif Weinidog y DU i ofyn bod camau brys yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng prisiau ynni.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**119 Materion Brys**

**120 Newid Aelodaeth**

Yn dilyn newidiadau i gynllun dirprwyo'r Arweinydd, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad yn gofyn bod y Cyngor yn ethol y penodiadau canlynol ar gyfer gweddill Blwyddyn y Cyngor: Gofynnodd hefyd am awdurdod gan y Cyngor i wneud unrhyw newidiadau ôl-ddilynol i gynrychiolaeth pwyllgor y Grŵp Llafur.

a) Maer;
b) Dirprwy Faer;
c) Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu;
d) Cadeirydd y Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion

a) **PENDERFYNWYD –** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022.
(Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby mai Mr Paul Hammett fydd ei chymar ac y byddai manylion ei Chaplan dewisol yn cael eu cyhoeddi maes o law)
b) **PENDERFYNWYD**- ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022.
(Rhoddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis wybod y byddai manylion ei chymar yn cael eu cyhoeddi'n fuan)
c) **PENDERFYNWYD** –ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu am weddill Blwyddyn y Cyngor, 2021-2022.
d) **PENDERFYNWYD** –ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Holmes yn Gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion am weddill Blwyddyn y Cyngor, 2021-2022.
e) **PENDERFYNWYD -** Awdurdodi Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i benodi aelodau'r Grŵp Llafur i bwyllgorau'r Cyngor sy'n galw am gydbwysedd gwleidyddol, ar ôl iddo dderbyn cadarnhad o ddymuniadau'r grŵp gwleidyddol dan sylw.

**Daeth y cyfarfod yma i ben am 7.50pm**

**Y Cynghorydd S Powderhill**
**Cadeirydd**